

Gadewch i ni drafod...

Rhoi aren fel rhoddwr byw a chodi'r mater â'r teulu a ffrindiau

Y dewis gorau o ran triniaeth i'r mwyafrif o bobl y mae angen trawsblaniad arnynt yw cael aren gan roddwr byw. Mae llawer o newidiadau a datblygiadau wedi bod ym maes rhoi aren fel rhoddwr byw dros y 10 mlynedd diwethaf, ond rydym yn gwybod bod hwn yn gallu bod yn bwnc anodd ei godi gyda'r teulu a ffrindiau.

Pam mai trawsblaniad gan roddwr byw yw'r dewis gorau?

Yn y mwyafrif o achosion, aren wedi'i rhoi gan roddwr byw yw'r canlyniad hirdymor gorau i'r derbynnydd. Mae astudiaethau wedi dangos, ar gyfartaledd, bod 90% o gleifion yn goroesi am 10 mlynedd yn dilyn trawsblaniad gan roddwr byw o'i gymharu â 75% yng nghyswllt cleifion sy'n derbyn trawsblaniad gan roddwr marw. Mae'r naill ddewis a'r llall yn llawer gwell na pheidio â chael dim trawsblaniad o gwbl.

A oes angen i fy rhoddwr byw fod yn perthyn i mi?

Na - gall unrhyw un fod yn rhoddwr y dyddiau hyn. Mae'n beth cyffredin iawn i bartneriaid neu ffrindiau roi. Hyd yn oed os nad ydych yn cydweddu, mae nifer o ddewisiadau eraill y gellir eu harchwilio, o gofio'r cynllun rhannu arenau a'r triniaethau atal organau rhag cael

eu gwrthod sydd ar gael yn y DU. Mae rhai pobl yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth - trafodwch hyn gyda'ch cydlynnydd trawsblaniadau cyn cynnwys y cyfryngau cymdeithasol er mwyn cytuno ar y ffordd orau i fynd ati.

Mae f'enw i ar y rhestr trawsblaniadau - oes yna unrhyw beth arall y dylwn i wneud, heblaw aros?

Po gyntaf y gallwch chi gael trawsblaniad, y gorau ydyw i chi ac o ran byw eich bywyd - gorau oll os yw'n digwydd cyn dechrau dialysis neu er mwyn i chi fod ar ddialysis am gyn lleied â phosibl o amser. Os oes cyfle i drafod y posibilrwydd o gael aren gan roddwr byw gyda ffrindiau a'r teulu, yna efallai y byddai'n beth da pe baech yn mynd ar ôl y dewis hwn cyn gynted â phosibl.



Sut mae codi'r pwnc gyda ffrindiau a'r teulu?

Rydym yn gwybod bod hwn yn bwnc anodd ei godi. Mae'n debyg mai'r ffordd orau yw drwy roi'r ffeithiau i bawb: mae angen trawsblaniad arnoch chi a'r dewis gorau i chi yw cael aren gan roddwr byw. Eglurwch bopeth rydych chi'n ei wybod am fywyd ar ddialysis a bod disgwyliad oes yn llawer gwell wrth gael aren gan roddwr byw.

Dywedwch fod mwy na 5,000 o bobl yn y DU hefyd yn aros am aren. Os ydynt yn awyddus i ddysgu mwy am y peth, dylent gysylltu â'u huned

leol neu'n well fyth, yr uned neu'r ganolfan drawsblannu rydych chi'n cael eich gweld ynddi - y person gorau i siarad ag ef yw'r cydlynnydd trawsblaniadau rhoddwr byw sy'n eich adnabod chi neu sy'n gallu dysgu amdanoch chi a rhoi cyngor i bobl sydd, efallai, yn meddwl am fod yn rhoddwr i chi. Mae'r rhestr gyswllt ar gyfer cydlynwyr rhoddwr byw ym mhob canolfan ar gael yma:

www.organdonation.nhs.uk/livingdonation.

Rydw i'n meddwl bod fy rhoddwr posibl yn rhy hen

Does dim cyfyngiad oedran uwch ar gyfer bod yn rhoddwr byw - mae pob un yn cael ei asesu fel unigolyn. Cynhelir nifer o archwiliadau safonol ar bob rhoddwr posibl sy'n cynnig ei hun yn ogystal â phrofion ychwanegol, os oes angen. Mae'r risgiau'n cael eu hesbonio'n ofalus i'r rhoddwr ac i'r derbynnydd.

Mae fy rhoddwr posibl yn fodlon cael profion, ond allwn ni ddim fforddio iddo gymryd amser i ffwrdd o'i waith

Mae cynllun ar gael i hawlio treuliau rhesymol sy'n codi yn sgil bod yn rhoddwr byw yn ôl, felly os nad yw'r rhoddwr yn cael tâl salwch gan ei waith, gallai fod yn gymwys i hawlio enillion a gollwyd a threuliau eraill yn ôl. Holwch eich cydlynnydd rhoddwr byw lleol neu nyrs arbenigol yn gynnar yn y broses asesu.

Mae fy mab a fy merch yn awyddus iawn i fod yn rhoddwr i mi, ond dydw i ddim eisiau iddyn nhw gymryd y risg

Mae hwn yn adwaith cyffredin ymysg rhieni neu unrhyw un sy'n cael cynnig aren gan rywun iau - ond dylech wrando ar farn a rhesymau'r rhoddwr a'u trafod. Ni chaiff aren fyth ei thynnu oni bai bod yr unigolyn dan sylw wirioneddol eisiau rhoi, a bod y tîm yn fodlon bod y risgiau i'r unigolyn hwnnw, yn y tymor byr a'r tymor hir, yn isel. Mae'r holl risgiau'n cael eu hegluro'n fanwl yn ystod y broses asesu rhoddwr.

Mae fy ffrind wedi dweud bod arni hi eisiau cael profion, ond rydw i'n meddwl y byddai fy mrawd neu fy chwaer yn cydweddu'n well - beth ddylen ni wneud?

Os oes unrhyw aelod o'ch teulu neu ffrindiau wedi mynegi dymuniad i gael profion, gofynnwch iddyn nhw gysylltu â'r cydlynnydd rhoddwr byw neu nyrs arbenigol yn eich uned neu'ch canolfan drawsblannu. Bydd ef/hi yn trafod gyda'ch teulu a'ch ffrindiau pwy sydd yn y sefyllfa orau i fwrw ymlaen â'r asesiad, gan ddibynnu ar amgylchiadau a phrofion cychwynnol.

NODIADAU

Cyf: 'Canllawiau Cymdeithas Trawsblaniadau Prydain/Y Gymdeithas Arennau ar Drawsblannu Arennau gan Roddwr Byw 2018' <https://bts.org.uk/guidelines-standards/>

I ddysgu mwy am roi aren fel rhoddwr byw, ewch i organdonation.nhs.uk/livingdonation ffoniwch 0300 123 23 23 neu e-bostiwch enquiries@nhsbt.nhs.uk



Yes I donate
ORGAN DONATION